


LGC
NLW

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth

noddwyr corfforaethol





Rhown y cyfle i Noddwyr
Corfforaethol fwynhau perthynas
arbennig gydag Un o Lyfrgelloedd
Mawr y Byd ac un o sefydliadau
diwylliannol blaenaf Cymru
- **Llyfrgell Genedlaethol Cymru**



dar g an fod

y llyfrgell



Lleolir Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth mewn adeilad neo-glasurol trawiadol. Saif yn ymyl un o brifysgolion blaenaf y DU gan fwynhau golygfeydd dramatig dros Fae Ceredigion.

Mae'r Llyfrgell

- yn cadw a darparu treftadaeth ddiwylliannol Cymru trwy storio gwybodaeth am Gymru a'i phobl, beth bynnag bo'r ffurf a phle bynnag y cynhyrchir yn y byd
- yn darparu ymchwil o'r radd flaenaf trwy ei chasgliadau sy'n cynnwys copi o bob dim gyhoeddwyd yn y DU yn y can mlynedd diwethaf.



Ein huchelgais yw sicrhau bod pawb sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am hanes a diwylliant Cymru yn gallu cael mynediad i'r wybodaeth, unrhyw bryd ac unrhyw le yn y byd.

Beth olyga hyn yn ymarferol? Ymhen amser bydd pob papur newydd a chyfnodolyn a gyhoeddwyd yng Nghymru ar gael i'w gweld ar y we. Golyga y bydd trysorau cenedlaethol fel Llyfr Du Caerfyrddin a Chyfreithiau Hywel Dda a'r Hengwrt Chaucer yn medru cael eu darllen mor drwyadl â phe baech yn bodio tudalennau'r gwreiddiol. Fe fydd modd i bawb yn fyd eang fwynhau ein cyfraniad i wybodaeth y byd, ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg ynghyd a'r celfyddydau gan greu gwelediad newydd a ffres o Gymru.



uchelgais

buddion

Byddwn yn cyhoeddi'n flynyddol raglen o ddigwyddiadau ac achlysuron arbennig a fydd i Noddwyr Corfforaethol a Noddwyr y Llyfrgell yn unig.

Fe fydd pob Noddwr Corfforaethol yn derbyn gwahoddiadau i'r canlynol ar gyfer 4 person:

- Arddangosiadau preifat
- Digwyddiad gyda siaradwr gwadd arbennig gyda derbyniad diodydd ymlaen llaw a swper i ddilyn
- Teithiau tu ôl i'r llenni
- Ymweliadau blynyddol â lleoliadau diwylliannol eraill o fewn Cymru

Yn gydnabyddiaeth ychwanegol o'ch cefnogaeth cynigir

- Tystysgrif aelodaeth arbennig
- E-gylchlythyr arbennig
- Cydnabyddiaeth yn ein hadroddiad blynyddol ac ar ein gwefan

Wrth wyllo eich buddsoddiad yn tyfu byddwch yn gwybod i chi gyfrannu at gyfoethogi bywyd diwylliannol Cymru.

